

**AROLWG BYR AR AMAETHYDDIAETH ARDAL**  
**LLANSANNAN**  
**1960 - 2008**

Pam 1960? Dyma'r flwyddyn y deuthum i fyw i'r ardal. Rhaid oedd penderfynu ar ryw ddyddiad. Roedd cryn newid wedi digwydd o ddiwedd y Rhyfel yn 1945 hyd 1960. Gwelwyd disodli'r ceffyl gan y tractor yn llwyr. Daeth y belar i lapio'r gwair yn dwt, a'r dyrnwr medi yn dod i ddisodli'r injan ddyrnu. Daliodd y chwyldro ymlaen weddill y ganrif. Arloeswyd llawer o dir garw hyd ganol yr wythdegau, yn cael ei symbylu gan grantiau. Blynnydoedd y moroedd o laeth, a'r llynnoedd gwin. Diflannodd y cae yd bron yn llwyr erbyn dechrau'r ganrif bresennol. Ceir peth arwydd fod pethau'n troi ychydig yn ôl. Rhan fach iawn yw cynhaeafu gwair bellach. Mae'r cyfan bron yn cael ei selio o dan y plastig neu ei lapio'n fynau crwn neu sgwar sy'n golygu llawer llai o ddibyniaeth ar y tywydd.

Diflannodd y gansen laeth o giat y ffordd, fe'i disodlwyd gan y tanc yn y llaethdy yn cael ei oeri'n syth. Oherwydd y costau ychwanegol aeth y nifer yn gwerthu llaeth i lawr i 6. Rhaid ychwanegu fod pris isel hefyd wedi bod yn ffactor bwysig hefyd. Cymharer gyda rhyw 70 yn 1960 yn cynhyrchu rhyw gymaint o laeth.

Disgynnodd nifer y ffermydd sy'n cael eu amaethu ar ben eu hunain bron i'r hanner. Deil amryw i fyw ar eu fferm, ond y tir yn cael ei osod. Ymhlith y rhai sy'n dal i ffermio, mae oddeutu eu chwarter mewn oed ymddeol. Tebyg fod rhyw ddeg fferm heb olyniaeth amlwg. Bydd y duedd i ffermydd fynd yn fwy yn dal ymlaen fel y mae technoleg yn dal i lamu ymlaen. Roedd rhyw 170 yn gweithio ar y tir yn 1960 heb gymryd rhan bwysig y gwragedd.

Disgynnodd y nifer i ryw 50 erbyn hyn. Cyfrifwyd y rhai dros 65 oed fel yn gweithio hanner amser. Nid yw hyn yn gywir bob amser gellir dadlau, ond nid ydynt yn hollol ddibynnol ar ei hincwm amaethyddol. Mae nifer o'r rhai sydd yn cael eu cyfrif fel llawn amser yn gwneud gwaith sylweddol y tu allan i'r fferm hefyd.

Gwelir fod rhyw 125 o ffermydd yn 1960. Peidiodd ryw 50 o leoedd a bod yn ffermydd eu hunain erbyn hyn. Dywedais mewn cyfarfod o amaethwyr yn nechrau'r wythdegau mae ryw hanner y ffermydd fydd yma mewn cenhedlaeth. Ia mor wir oedd hyn yn 2008, dyna oedd y symbyliad i wneud y prosiect. Gellir dehongli yr ystadegau mewn ttrydd gwahanol ond ni ellir dadlau mae ond ryw hanner y ffermydd sydd ar ôl.

Gellir dweud fod polisi'r Cynulliad yn dipyn mwy ffafriol tuag at amaeth a chefn gwlad. Does dim yn creu gwelliant i ddiwydiant na phrinder. Dechreuwyd gweld

hynny yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, yn cael ei achosi gan fod safon byw gwledydd Asia yn raddol godi, gan greu dosbarth canol newydd. Peidiwn ag anghofio effaith pris olew hefyd.

I sicrhau dyfodol cefn gwlad rhaid cael swyddi y tu allan i amaeth, a chyda gwasanaethau i gadw'r ifanc yma. Pobl ddygn ydym, ac a fydd pobl y tir. Mae trin tir a magu anifeiliaid yn dal i fod yn Ffordd o fyw yn ogystal a gwaith a busnes.

### **Cnydau 1960 - 2008**

Ym mhlwy' Llansannan roedd tyfu ŷd yn dal yn bwysig er mwyn bwydo'r anifeiliaid, y gwartheg, y moch, ieir ac ambell geffyl, er hynny roedd wedi lleihau yn arw o amser gorfodaeth troi amser y rhyfel,ac wedyn. Daliai yr injan ddyrnu i ddod ar ei thro i'r ffermydd, aml un ddwywaith, efallai dair gwaith, i'r lleoedd mwyaf. Dechreuodd ambell le ddefnyddio'r dyrnwr medi, a buan iawn y peidiodd yr injan ddyrnu. Ychydig o dyfu ŷd oedd erbyn yr 80 degau. Ceirch oedd y prif rawn hyd y chwedegau, ond oherwydd fod haidd yn aeddfedu'n gynt, 'roedd siawns ei gynaeafu cyn y tywydd ddirywio, â'r dydd yn byrhau. Prin fod ceirch yn cael ei adael i orffen aeddfedu ond ei dorri i'w fwydo ar ei 'frîg' wedi amser yr injan ddyrnu.

Aeth tyfu swêj a maip ar i lawr yn gyflym yn ystod y chwedegau. Gormod o lafur, lle yr oedd peiriannau hwylusach yn dod i wneud angen am gadw cymaint o weithwyr. Dyma'r adeg pryd ennillwyd cryn lawer o dir i fod yn 'ddaear las ar wyneb anial dir gyda'r caterpillar a thractor pedwar gyriant yn dechrau dod, gan ZETOR i gychwyn o Siecslofacia.

Trafferthus oedd y cynhaeaf gwair i bron bawb, os nad oedd y tywydd yn dda. Ychydig oedd yn gwneud silwair tan yr wythdegau. Cesglid y cnwd i dwll pridd neu le wedi ei gau a wal goncrid neu goed relwe ar ol diwrnod o sychu. Hyd heddiw mae nifer fawr o ffermydd ddim yn gwneud silwair yn y dull yma. Gwaredigaeth i'r rhai heb le pwrpasol oedd dyfodiad y belar crwn yn yr wythdegau. Dyma oedd eu hateb hwy i broblem cyneuafu gwair. Rhoddid y byrnau crwn mewn bagiau i gychwyn, ond heddiw ei lapio. Mae peiriannau yn dod ar y farchnad sydd yn belio a lapio yn un. Ceir tipyn o felio sgwar yn digwydd. Ychydig iawn o wair mewn bêl fechan erbyn hyn sydd yn cael ei gynaeafu. Defnyddir y belar crwn neu sgwar i gael y gwair i fewn fel bod fawr o angen bôn braich !

Contractwyr sydd yn amlach na pheidio yn torri, casglu a rhoi y cnwd yn ei gartref tros y gaeaf. Gwrthgyferbyniad llwyr bron i 1960. Torrid gydag addasiad o injan geffyl gyda thractor yn ei thynnu neu'r peiriant heidrolig tu ol i Massey Ferguson neu'r Fergie bach fel rheol, yna ei drin a'i gario yn rhydd, ond 'roedd amryw yn defnyddio belar Jones Rhosesmor o bosib. Delid i hau yn 1960 swêj, maip a chêl

ond fel roedd y borfa'n cael ei thor'n iau a silwair yn ennill tir daeth y diwedd ar eu tyfu o'r bron. Daliodd rēp yn boblogaidd hyd ddiwedd yr wythdegau fel cnwd, yn aml lie yr oedd arloesi'n digwydd. Mae ychydig o dyfu swej a maip yn dod yn ôl o dan gynlluniau Tir Gofal. Y chydig o wrtaith neitret a ddefnyddid 50 mlynedd yn ôl. Fel mae pris gwrtaith yn codi'n aruthrol 'rwan bydd llawer yn mynd yn ôl yn fwy organig. Pawb yn tyfu tatws - NEB rwan.

## **Stoc 1960 - 2008**

Cedwid cymysgedd o anifeiliaid ar lawer iawn o'r ffermydd.

Y chydig o geffylau oedd yn dal ar ôl, gwnaent ychydig o waith gyda'r tatws a'r swej. Gyda'r gribin wair mae'n debyg, ac weithiau i gario. Diflannodd y ceffyl mewn llai na deng mlynedd dyweder 1947 - 55 i fod yn angenrheidiol.

Y fuwch laeth Friesian oedd yr anifail a roddodd siec gyson i'r ffermydd lleiaf a thyddynnod, yn ogystal a'r lleoedd mwy. Roedd bron bawb yn gwerthu llaeth a magu lloi i'r fuches, a chroesi gyda'r Henffordd, a gwerthu yn stôr neu ei besgi. Yn niwedd y '60au daeth y Charolais o Ffrainc, ac yna y Limousin yn fuan yn y '70au. Heddiw ceir amryw byd o fridiau eraill. Holstein yw'r fuwch laeth mwyaf poblogaidd a'r Limousin fel tarw biff. Ceid ambell i fuches Shorthorn lle nad oedd gwerthu llaeth neu y fuwch Ddu Gymreig. Mae'r ddau frid yma yn dal o gwmpas, ond dim ond un fuches Shorthorn yn Rhydeidion Bach. Cedwid ieir ymhob man, allan neu deep-litter, ambell i le mewn cewyll. Deuai ag arian parod i brynu neges. Prin iawn yw'r ieir erbyn hyn. Yr un yw hanes y moch. Cedwid hwch neu fwy a'r hanner y ffermydd, gwerthid perchyll, yn y farchnad neu i Grwp, pesgid rhai yn byrc, neu yn facwn. Ar ychydig iawn o ffermydd y ceid gwyddau a thyrswen.

## **Bwydo'r Stoc**

Yn 1960 y gwartheg oedd yn dod a mwyaf o incwm yn y rhan fwyaf o'r ffermydd. Roedd y siec am y llaeth yn mynd i fewn i'r cyfrif banc yn fisol. Cai y buchod llaeth ei bwydo a cheirch wedi ei dyfu a'i falu ar y fferm, a hefyd rhywfaint o swej wedi'u torri. Os byddai'r fuwch yn godro, byddai'n siwr braidd o gael rhywfaint o fwyd wedi'i brynu i fewn gan gwmnïau megis Evan Roberts Y Ddol, David Mars Jones a'i Gwmni, Y Post, neu Pauls, Lever, Bibby ac eraill. Byddai gwair ar gael iddynt tair neu bedair gwaith y dydd. Byddent yn rhwym yn y beudy ac yn cael carthu tu ôl iddynt ddwy waith y dydd.

Rhywbeth yn debyg oedd bwyd y buchod oedd yn cael eu cadw i gael gwartheg i besgi, ond heb fwyd wedi'i brynu i fewn.

Tebyg eto fyddai bwyd y stoc ifanc ar fferm laeth neu fferm magu stoc. Llaeth ei fam fyddai cynhaliaeth pennaf y lloi yn ystod yr wythnosau cyntaf ymhob fferm. Roedd digon o wellt i'w gael i'w fwydo neu yn wely i'r anifeiliaid. Prif fwyd pesgi gwartheg oedd cynnyrch cartref, sef malu blawd a swêj, a gwair yn y rhesel. Fel rheol byddai y rhain yn rhydd mewn cwt cynnes.

Erbyn heddiw mae'r fuwch odro yn cael ei bwydo allan o wagen gyda dogn go dda o silwair glaswellt, gydag ychwanegiad o haidd, sbar betys siwgwr, efallai gwenith, a minerelau. Mae pa ychwanegiadau yn dibynnu dipyn ar y pris ar y pryd - mae cynghorwyr ar gael i ofalu bod y bwydo yn unol a gofynnion y fuwch. Heddiw yn ddi-eithriad mae y buchod yn rhydd i fynd a dod mewn sied cymharol agored, ac yn gorwedd mewn ciwbid ar ei phen ei hun. Megir y lloi ar ôl yr wythnos neu ddwy gyntaf ar laeth powdwr, a chyflwynir bwyd sych o fwyd cyfansawdd a gwair, neu wellt iddynt cyn gynted a phosibl.

Mae mwyafrif y buchod sydd yn cael eu cadw at fagu lloi i'r farchnad biff yn cael ond silwair yn unig. Bydd y lloi tan flwydd yn ami yn cael ychydig o fwyd cyfansawdd wedi'i brynu. Pesgi'r hwy ar silwair, ynghyd a haidd neu ddwysfwyd wedi'i brynu fel rheol.

Bwydo gaeaf 'rydym wedi son amdano uchod, ond yn yr haf porfa dda yw'r nôd i bob math o stoc. Does dim byd rhatach na glaswellt. Ni fydd llawer o fwydo ychwanegol yn cael ei roi hyd nes y bydd Y borta'n dechrau colli'i gwerth.

Hanner can-mlynedd yn ôl prif frid ymysg y defaid o ddigon oedd y ddafad Fynydd Gymreig. Disgwylid iddi fyw y rhan fwyaf o'r flwyddyn ar y borta. as byddai eira rhoddid gwair iddynt, ar lawr yn ami, weithiau mewn rhesel. Byddant bob amser allan drwy'r Gaeaf. Gall dafad a llo bach dreulio ceirch heb eu malu. Weithiau byddai'r defaid yn cael ychydig o geirch tuag at amser wyna neu India Corn cyfa. Ceir rhywfaint o fridiau eraill. Yn bennaf Suffolk er mwyn cael oen cynnar. Rhoddid hwrdd Suffolk ambell dro ar y mamogiaid Cymreig hynaf. Eu gwerthu oedd y drefn arferol i ffermydd lawr gwlad.

Erbyn heddiw mae nifer fawr o fridiau defaid yn y cylch, a chroes fridiau. Tebyg mae y Texel neu groesiad ohono yw'r mwyaf poblogaidd o'r bridiau newydd. Ceir diadell lwyddiannus iawn ar fferm Beidiog Isaf o Texels. Deil y ddafad fynydd Gymreig y brîd mwyaf poblogaidd. Mae llawer o ddefaid yn treulio rhan o leiaf o'r gaeaf mewn siediau arbennig, nes y byddant wedi wyna. Bwydir y defaid sydd yn y siediau neu allan gyda silwair da, weithiau gyda gwair. Pan ddeuir yn nes at wyna, bydd bwyd cyfansawdd yn cael ei roi. Wedi wyna bydd ychydig o borfa iddynt oherwydd i'r tir gael gorffwys. Ar ambell fferm bydd swêj ar gael. Mae defaid yn brif anifeiliaid ar

amryw o'r ffermydd erbyn hyn. Mewn ambell fferm does dim gwartheg o gwbl.

Y chydig o bwysigrwydd oedd i'r ceffyl erbyn 1960, a chan nad oedd yn gweithio'n gyson, yn amlach na pheidio gwair yn unig oedd ei fwyd yn y gaeaf a'r borfa'n yr Haf. Heddiw ceir merlod o wahanol faintioli, mewn ambeil le. Maent allan fel rheol gydol y flwyddyn ac yn cael gwair neu silwair sych pan nad oes porfa.

Byddai'r moch yn cael eu bwydo gyda cheirch neu haidd wedi falu, tatws man neu rai ddim digon da i bobl eu bwyta. Prynid bwyd arbennig iddynt dro arall. Nid oeddynt yn anifeiliaid mor bwysig a hynny erbyn 1960. Heddiw prin fod mochyn ar ôl yn y cylch.

Yr un stori yw hanes yr ieir. Caent eu bwydo ar geirch, neu fwyd wedi'i brynu, gyda phawb bron yn cadw rhywfaint. Erbyn heddiw ychydig o ieir sydd yn y cylch. Fe'i bwydir a bwyd pryn.